

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: Cabinet

Dyddiad y Cyfarfod: 7 Tachwedd 2023

Teitl: Argymhelliad gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ar y Cynigion a'r Cyfleoedd ar gyfer Parcio

Pwrpas yr adroddiad: Rhoi adborth yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ar 23 Hydref 2023

Cefndir:

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad manwl ynghylch yr argymhellion canlynol a wnaeth y Pwyllgor i'r Cabinet ar 5 Medi 2023:

- I. Bod y Cabinet yn ystyried cynnal adolygiad ynghylch codi tâl am barcio ar hyd y Promenâd yn Aberystwyth; a
- II. Bod y Cabinet yn ystyried cynnig dwy awr o barcio am ddim rhwng 8am a 10am, o ddydd Llun i ddydd Gwener, mewn un maes parcio ym mhob un o drefi Llanbedr Pont Steffan, Aberaeron ac Aberteifi.

Argymhelliad:

Ar ôl trafod, cytunodd y Pwyllgor i argymell y canlynol i'r Cabinet:

- Cynnal adolygiad ynghylch codi tâl am barcio ar hyd y Promenâd yn Aberystwyth drwy gydol y flwyddyn a chyflwyno parcio am ddim cyn 10am ym mhob un o feysydd Parcio Talu ac Arddangos Cyngor Sir Ceredigion. Byddai gofyn i'r Cabinet ystyried y goblygiadau ariannol o ychwanegu Aberystwyth at y cynnig hwn oherwydd ni fyddai'r Pwyllgor am i'r newidiadau gael effaith ariannol negyddol ar yr Awdurdod.

Y Cyngorydd Gwyn Wigley Evans
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus